




# Regional Learning Partnership Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol

South West & Central Wales  
De-Orllewin a Canolbarth Cymru



## Dadansoddiad o'r Gweithlu ar gyfer Ysgolion yn ERW



Ein Rhanbarth ar Waith  
Education through Regional Working

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.  
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.  
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.





Regional Learning Partnership  
Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol

---

South West & Central Wales  
De-Orllewin a Canolbarth Cymru

**Prif Awdur:**

Rachel Rees

(Ymchwilydd y Bartneriaeth  
Ddysgu Ranbarthol)

**Regional Learning Partnership – South West & Central Wales**  
**Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol – De-Orllewin a Chanolbarth Cymru**

Y Ganolfan Adnoddau Busnes, Parc Amanwy, Heol Newydd,

Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 3EP

01554 742430 | [www.rlp.org.uk](http://www.rlp.org.uk)

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Gofynnodd ERW i'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol rychwantu astudiaeth ymchwil, a fyddai'n darparu data a gwybodaeth, i gefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu ymysg gweithluoedd ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig rhanbarth de-orllewin a chanolbarth Cymru.

Nod yr adroddiad yw canfod anghenion datblygu'r gweithlu ar gyfer y system ysgolion/addysg yn y dyfodol. Amcan yr ymchwil yw darparu data a gwybodaeth a fydd yn llywio'r broses o gynllunio'r gweithlu mewn ysgolion ac ym maes gwella ysgolion er mwyn ymateb i anghenion y dyfodol.

Mae adrannau'r adroddiad yn cynnwys ymchwil sydd eisoes yn bodoli, persbectif ar bolisi a strategaeth Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o'r cefndir, heriau, rhagweld anghenion y dyfodol a chasgliadau ac argymhellion.

## Ymchwil Bresennol

Mae Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru<sup>1</sup> yn awgrymu'r canlynol:

- Gwella arweinyddiaeth ar gyfer y sector cyfan
- Datblygu ymgysylltiad cryfach rhwng cyrff rheoleiddio
- Sefydlu Cynllun Ysgolion Hyfforddi i gydnabod ysgolion sy'n rhagori ym maes Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
- Mae angen i arweinyddion Sefydliadau Addysg Uwch wella'r Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon trwy reoli perfformiad ac ymchwil
- Os bydd gwendidau o ran Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn parhau, dylai HEFCW a'r Adran Addysg a Sgiliau fedru adleoli hyfforddeion i ddarparwyr eraill

Mae Gwella Ysgolion yng Nghymru<sup>2</sup> yn awgrymu'r canlynol:

- Codi statws y proffesiwn
- Sicrhau DPP o ansawdd ym mhob cyfnod
- Cydweithio rhwng ysgolion
- Datblygu arweinyddiaeth a chynnig gwell llwybrau gyrfa i ddarpar arweinyddion ysgolion
- Symleiddio'r safonau proffesiynol
- Cryfhau cymwyseddau asesu a gwerthuso

Mae Addysgu Athrawon Yfory<sup>3</sup> yn awgrymu'r canlynol:

---

<sup>1</sup> Yr Athro Ralph Tabberer. Gorffennaf 2013. A Review of Initial Teacher Training in Wales. Ar gael trwy: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-review-of-initial-teacher-training-in-wales-en.pdf>

<sup>2</sup> OECD. 2014. Improving Schools in Wales: an OECD Perspective. Ar gael trwy: <http://www.oecd.org/edu/Improving-schools-in-Wales.pdf>

<sup>3</sup> Yr Athro John Furlong. Mawrth 2015. Teaching Tomorrow's Teachers. Ar gael trwy: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-final.pdf>

- Datblygu mwy o alluoedd ymchwil ymhlith y staff sy'n darparu Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (ITET)
- Diwygio'r broses achredu ar gyfer darparwyr addysg gychwynnol i athrawon
- Sefydlu 'Bwrdd Achredu Addysg Athrawon' o fewn Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru
- Diwygio 'Canllawiau Arolygu' Estyn i ysgolion er mwyn cydnabod cyfraniad i addysg gychwynnol athrawon
- Disodli'r BA Cynradd (Anrh) presennol â gradd pedair blynedd

Mae Dyfodol Llwyddiannus<sup>4</sup> yn awgrymu'r canlynol:

- Defnyddio 6 Maes Dysgu yn hytrach na phynciau
- Bod pob athro yn gyfrifol am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- Datblygu Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- Bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod yn ganolbwyntiau ar gyfer yr iaith Gymraeg, er mwyn cefnogi'r ysgolion cyfrwng Saesneg
- Disodli'r cyfnodau presennol a'r cyfnodau allweddol â Chamau Dilyniant bob 3 blynedd, y byddai pob un ohonynt yn cwmpasu ystod o Ddeilliannau Cyflawniad
- Symleiddio gweithdrefnau asesu
- Datblygu canllawiau cenedlaethol i ysgolion ar newidiadau i'r cwricwlwm
- Datblygu rhaglen helaeth, estynedig o ddysgu proffesiynol
- Datblygu ymrwymiad, dealltwriaeth a sgiliau arweinyddiaeth

Mae Asesiad o Ofynion Datblygu'r Gweithlu Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)<sup>5</sup> yn awgrymu:

- Cryfhau'r hyfforddiant cychwynnol
- Gwella mynediad i wybodaeth a chanllawiau
- Estyn neu wella'r dysgu proffesiynol
- Hybu cydweithio o fewn a rhwng lleoliadau a gwasanaethau
- Sicrhau mwy o gynnwys AAA mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon
- Gwella ymwybyddiaeth o wahanol fathau o AAA
- Gwella sgiliau o ran asesu cryfderau a gwendidau disgyblion
- Gwella sgiliau a gwybodaeth athrawon yng nghyswllt gwahaniaethu
- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisïau a chyfrifoldebau AAA ysgolion o dan Gôd Ymarfer AAA Cymru
- Bod pob aelod o staff yn caffael sgiliau craidd, a bod mynediad at sgiliau AAA mwy arbenigol ac uwch ar gael yn ôl yr angen
- Cryfhau'r wybodaeth a'r arweiniad y gall staff eu cyrchu
- Darparu mynediad i gymwysterau AAA arbenigol, ynghyd â dysgu ar y cyd, megis hyfforddiant tywys, mentora a chyfranogi mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol

<sup>4</sup> Yr Athro Graham Donaldson. Chwefror 2015. Successful Futures. Ar gael trwy: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-en.pdf>

<sup>5</sup> Dr Duncan Holtom, Rhodri Bowen a Dr Sarah Lloyd-Jones. Yr Uned Pobl a Gwaith. Mawrth 2015. An assessment of special educational needs (SEN) workforce development requirements. Ar gael trwy: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150330-sen-en.pdf>

Mae Ymchwil a'r Proffesiwn Addysgu<sup>6</sup> yn awgrymu bod:

- Angen i Lywodraeth Cymru ategu'r neges bod disgwyl i bob ysgol dda feithrin diwylliant sy'n cynnwys cyfoeth o ymchwil
- Angen i arweinyddion prifysgol gydnabod eu cyfraniad at feithrin gallu i ymchwilio, gydag angen arbennig am ddatblygu gallu i ymchwilio yn y sector cyfrwng Cymraeg
- Angen i Brifysgolion gryfhau eu gallu i ymwneud â Hyfforddiant Cychwynol i Athrawon sydd wedi'i lywio gan ymchwil
- Angen i Lywodraeth Cymru a'r consortia addysg ddatblygu cysylltiadau mwy effeithiol rhwng y ddarpariaeth gyfredol ardderchog o ran datblygiad proffesiynol cynnar (Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol) a mathau eraill o DPP
- Angen i Estyn ddiwygio'r fframwaith arolygu ysgolion i gynnwys datblygiad proffesiynol y gweithlu
- Angen i Gyngor Addysg Cymru adolygu'r safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysg, er mwyn ymgorffori ymchwil ac ymholi

### Persbectif ar Bolisi a Strategaeth Llywodraeth Cymru

Yng nghyswllt addysg, mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i wella addysg blynyddoedd cynnar, gwella cyrhaeddiad mewn ysgolion, datblygu Addysg Gyfrwng Gymraeg a gwella Addysg Bellach ac Uwch.

Y safonau proffesiynol sy'n berthnasol mewn ysgolion yng Nghymru yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Safonau a Fframweithiau Cymhwysedd Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU), Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (PTS) a Safonau Arweinyddiaeth. Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r safonau i gynnwys datblygiad proffesiynol ar hyd gyrfaoedd gweithwyr addysg proffesiynol.

'Cymwys am Oes' yw cynllun gwella addysgol 5 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc 3-19 oed. Rhai o'r amcanion allweddol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu addysg yw rhoi'r Fargen Newydd ar waith, defnyddio technolegau digidol yn effeithiol, adolygu'r fframwaith cymwysterau ar gyfer staff cynnal dysgu, diwygio Hyfforddiant Cychwynol i Athrawon, cyflwyno rheoliadau sy'n gofyn bod pob ysgol yn creu Cynllun Datblygu Ysgol, datblygu mynegiad i raglenni Meistr, datblygu rôl Cyngor newydd y Gweithlu Addysg, parhau i boblogi'r Llwybr Datblygu Arweinyddiaeth, cynhyrchu safonau cenedlaethol ar gyfer ymgynghorwyr her a chryfhau trefniadau ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon.

Bydd y Fargen Newydd yn cynnwys creu Pasbort Dysgu Proffesiynol, Safonau Proffesiynol diwygiedig, canllawiau a chymorth gan Lywodraeth Cymru, gradd Meistr mewn Ymarfer Addysg, cefnogaeth i athrawon, datblygu arweinyddiaeth a phrosiect Pathfinder (fydd yn rhoi'r ymchwil academiaidd ddiweddaraf ar wella ysgolion ar waith).

Dyfarnir marc ansawdd i ysgolion dysgu proffesiynol yn rhanbarth ERW gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (UWTSD) ac ERW. Bydd yr ysgolion yn arwain y dysgu o'r tu mewn trwy ddod yn arweinwyr dysgu proffesiynol yn eu meysydd arbenigedd eu hunain.

---

<sup>6</sup> BERA-RSA. 2014. Research and the Teaching Profession; building the capacity for a self-improving education system. Adroddiad terfynol Ymchwiliad BERA-RSA i rôl ymchwil ym maes addysg athrawon. Ar gael trwy: <https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2013/12/BERA-RSA-Research-Teaching-Profession-FULL-REPORT-for-web.pdf>

System o hunanwelliant yw'r Model Dysgu Proffesiynol, lle mae disgwyl i athrawon ddatblygu dull gweithredu adfyfyriol yn eu DPP. Ochr yn ochr ag astudiaethau achos ar arfer gorau o ran DPP, mae pecyn offer ar ddysgu proffesiynol wedi cael ei ddatblygu i gynorthwyo gyda'r Model Dysgu Proffesiynol, sy'n cynnwys modiwlau ar ddatblygiad proffesiynol, athrawon fel ymchwilwyr ac ymarfer sy'n cael ei lywio gan ymchwil.

Newidiodd y system rheoli perfformiad ym mis Ionawr 2012 pan ddaeth Rheoliadau Arfarnu Athrawon Ysgol 2011 i rym. Roedd y newidiadau'n cynnwys cysylltiad â'r safonau proffesiynol, defnyddio data wrth bennu amcanion a chofnodi datblygiad proffesiynol mewn cofnod Adolygu a Datblygu Ymarfer (PRD). Roedd y system hefyd yn cynnwys cylch rheoli perfformiad.

Mae canllawiau statudol ar gyfer cyflogau ac amodau athrawon wedi cael eu cyflwyno ar gyfer 2015 gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid yw cyflogau ac amodau athrawon wedi'u datganoli; felly mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i athrawon a gynhelir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Dyfarnwyd i'r Bartneriaeth y contract ar gyfer dilysu asesiadau athrawon yn allanol. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol a CDSM Interactive Solutions.

Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer gweithio Rhanbarthol yn 'fframwaith ar gyfer gwella ysgolion sy'n cydnabod rôl bwysig ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn y gwaith o gefnogi addysg.'<sup>7</sup>

Mae'n ofynnol bod gan bob ysgol a gynhelir Gynllun Datblygu Ysgol (CDY) yn ei le erbyn 1af Medi 2015.

Bydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, sy'n bwriadu sicrhau bod cymhwysedd digidol yn cael ei wreiddio yn y cwricwlwm, ar gael i ysgolion erbyn mis Medi 2016. Fel rhan o'r fframwaith, nodir ysgolion sy'n rhagori ym maes cymhwysedd digidol a rhoddir iddynt statws Arloeswyr Digidol. Bydd yr arloeswyr hyn yn rhannu eu harfer gorau gydag ysgolion eraill ac yn codi safonau. Hefyd bydd Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r Cyngor Prydeinig, yn datblygu profiadau, rhaglenni a chyfleoedd rhyngwladol newydd ym maes dysgu proffesiynol.

### **Dadansoddiad o'r Cefndir**

Y sir yn y rhanbarth sydd â'r boblogaeth fwyaf yw Abertawe, ac yng Ngheredigion y ceir y boblogaeth leiaf. Er mai yn Abertawe y ceir 27% o boblogaeth y rhanbarth, mae'r rhanbarth yn cynnwys 29% o boblogaeth Cymru. Mae'r rhanbarth yn cynnwys mwy o boblogaeth sy'n heneiddio na chyfartaledd Cymru, gan fod yno ganran uwch o bobl dros 65 oed. Mae canran uwch o fenywod na gwrywod yn y rhanbarth ac yng Nghymru. Mae mwyafrif y bobl yn y rhanbarth (97%) ac yng Nghymru (96%) yn wyn. Yn gyffredinol yn y rhanbarth mae tuedd ar i fyny yn y cyfraddau geni rhwng 1996 a 2013.

Yng Nghymru, mae 32.2% o'r ysgolion o fewn y rhanbarth. Mae 33% o'r ysgolion Cynradd, 29.5% o'r ysgolion Uwchradd a 25.6% o'r ysgolion Arbennig wedi'u lleoli yn y rhanbarth.

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru. Ebrill 2015. Model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol. Ar gael trwy: <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/>

Roedd disgyblion y rhanbarth yn cyfrif am 27.7% o ddisgyblion ysgol Cymru ym mis Ionawr 2015. Ceredigion oedd â'r gymhareb disgybl athro isaf o ran ysgolion Cynradd yn y rhanbarth, a Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r cymarebau isaf o ran ysgolion Uwchradd. O'u cymharu â Chymru gyfan, roedd gan 4 o'r 6 sir yn y rhanbarth gymarebau is ar gyfer ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig. O gymharu â lefel Cymru, roedd maint cyfartalog dosbarthiadau'n llai ym mhob man heblaw Abertawe yn y Cynradd, ym mhob man heblaw Sir Benfro ac Abertawe ym Mlynnyddoedd 7 i 11, ac ym mhob man heblaw Sir Benfro, Ceredigion ac Abertawe ym Mlynnyddoedd 12 i 13.

Ym Mlwyddyn Academaidd 2013/2014, roedd perfformiad Cyfnod Sylfaen y rhanbarth yn uwch na pherfformiad Cymru yn achos y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (FPI), Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Gymraeg (LCW), Datblygiad Mathemategol (MDT) a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Llesiant ac Amrywiaeth Diwylliannol (PSD). Roedd perfformiad y rhanbarth yn is na lefel Cymru yn achos Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Saesneg (LCE). Yng Nghyfnod Allweddol 2 yn yr un flwyddyn, roedd perfformiad y rhanbarth yn uwch na lefel Cymru yn y Dangosydd Pynciau Craidd (CSI), Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Serch hynny, roedd yn is na pherfformiad Cymru o ran y Gymraeg. Yng Nghyfnod Allweddol 3, roedd perfformiad y rhanbarth yn uwch na lefel Cymru yn y Dangosydd Pynciau Craidd, Saesneg a Mathemateg. Serch hynny, roedd yn is yn achos Cymraeg a Gwyddoniaeth. Roedd perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn y rhanbarth yn uwch na lefel Cymru yn Lefel 1, 2, ac roedd 2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg a'r Dangosydd Pynciau Craidd.

Ymhlith cyfrifoldebau proffesiynol athrawon mae addysgu, trefniadaeth ysgol gyfan, strategaeth a datblygiad, iechyd, diogelwch a disgyblaeth, rheoli staff ac adnoddau, datblygiad proffesiynol, cyfathrebu, gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill. Mae gan benaethiaid ysgolion gyfrifoldebau hefyd o ran dilyniant cyflog ac argymhellion i athrawon, ynghyd ag arweinyddiaeth a datblygiad staff.

Gall Proffiliau Swydd cyfredol amrywio ar draws y rhanbarth ac o fewn ysgolion. Nid ydynt wedi'u cyfyngu i Athrawon a gallant gynnwys rolau megis Cynorthwy-ydd Addysgu, goruchwyliaeth, clercol, busnes, cyllid, gofal bugeiliol, technegydd, llyfrgell, glanhawr, gofalwr, arlwy, goruchwylwr a chydlynnydd.

O fewn yr ymchwil hwn, ymchwiliwyd i'r proffiliau swydd cyfredol a restrwyd ar wefan pob Awdurdod Lleol a nodwyd sgiliau cyffredin, gan gynnwys Statws Athro Cymwysedig (QTS), cyfathrebu, rhyngpersonol, gwybodaeth am y cwricwlwm, rhifedd a sgiliau TG. Yn ogystal â'r rhain mae angen sgiliau ychwanegol ar Benaethiaid, gan gynnwys y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH), cynllunio ysgolion a datblygu strategaeth, arweinyddiaeth, ymgysylltu / partneriaeth â rhanddeiliaid, dadansoddi data, dealltwriaeth o arfer addysgu effeithiol, rheolaeth, ariannol, rheoli adnoddau, gwybod am ddiwylliant Cymru a'i hyrwyddo a gwybod am agendâu/polisïau/strategaethau cenedlaethol. Roedd sgiliau Dirprwy Benaethiaid yn debyg i sgiliau Penaethiaid, ond hefyd yn cynnwys cefnogi'r Pennaeth ac ymgymryd â dyletswyddau'r Pennaeth pan fydd yn absennol.

Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, cynhaliodd staff ERW arolwg i bennu'r gwahanol fathau o lwybrau gyrfa yn y gweithlu addysg, gan gynhyrchu 4 astudiaeth achos. Mae'r astudiaethau achos yn amlygu sgiliau a gafwyd y tu allan i amgylchedd ysgol traddodiadol yn ERW, gan gynnwys sgiliau o ran cefnogi a herio ysgolion, arweinyddiaeth, cyflwyno, rheoli,

dealltwriaeth o faterion ysgol a gwelliannau i ysgolion, gweithio mewn partneriaeth, darparu hyfforddiant, gwaith rhwng ysgolion, cynhyrchu adnoddau, llunio adroddiadau a chynnal gweithgorau. Bu'r sgiliau hyn yn galluogi cyfranogwyr yr astudiaethau achos i ystyried gwneud cais am rolau arweinyddiaeth ysgol a gwaith rhanbarthol pellach, a chafodd un cyfranogwr ei gyflogi'n Bennaeth Cynorthwyol yn dilyn secondiad yn ERW.

Yn 2014/15, yn ne-orllewin Cymru y gwelwyd mwyafrif y ddarpariaeth Gynradd Israddedig dan arweiniad Prifysgol, sef 38% o'r cyfanswm. Yn Ne-orllewin Cymru hefyd y cafwyd 34% o ddarpariaeth TAR Cynradd Cymru a 35% o'r ddarpariaeth Gynradd gyffredinol dan arweiniad Prifysgol. De-orllewin Cymru oedd a'r ddarpariaeth TAR Uwchradd uchaf o dan arweiniad Prifysgol, 35% o'r ddarpariaeth TAR Uwchradd, a 31% o gyfanswm y ddarpariaeth Uwchradd dan arweiniad Prifysgol yng Nghymru.

O 2007 i 2013 gwelwyd tuedd gyffredinol o gynnydd yn nifer y swyddi gwag oedd yn cael eu hysbysebu ar gyfer athrawon Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru. Mewn ysgolion Cynradd, roedd mwyafrif (43.5%) y swyddi a hysbysebwyd yn rhai ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2, gydag athrawon Cyfnod Sylfaen yn dilyn. Y 4 prif bwnc yr hysbysebwyd am athrawon ar eu cyfer mewn ysgolion Uwchradd rhwng 2007 a 2013 oedd Saesneg, Mathemateg, Arall a Gwyddoniaeth. Mae'r duedd gyffredinol mewn ceisiadau a phenodiadau a welwyd yng Nghymru yn cyfateb i'r duedd gynyddol o ran swyddi gwag i athrawon Cynradd ac Uwchradd. Llanwyd mwyafrif y rolau gan ymgeiswyr.

Mae rhai ysgolion yn defnyddio gwasanaethau recriwtio Cyngor Sir Caerfyrddin, tra bod eraill yn hysbysebu swyddi eu hunain, yn arbennig ysgolion Uwchradd. Defnyddir y Times Educational Supplement (TES) ar-lein ar gyfer swyddi Penaethiaid a Dirprwyon, neu mae'r ysgolion yn hysbysebu'n uniongyrchol ar Eteach. Yn 2014, swyddi Athro oedd y swyddi a hysbysebwyd fwyaf o blith yr holl swyddi mewn ysgolion a hysbysebwyd ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Dilynwyd hynny gan swyddi Hebryngwr Ysgol a Chynorthwy-ydd Addysgu.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn hysbysebu swyddi ar ran yr holl ysgolion Cynradd yn y sir fel rhan o'u Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag ysgolion. Mae ysgolion Uwchradd Ceredigion yn trefnu eu recriwtio eu hunain, ac mae rhai'n defnyddio system recriwtio ar-lein y Cyngor. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi mabwysiadu system o gynnwys hysbyseb 'sbardun gwe' mewn dau gyhoeddiad lleol bob pythefnos, er mwyn cyfeirio darllenwyr at wefan y sir.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn hysbysebu ar gyfer mwyafrif ysgolion y sir ar eu safleoedd Mewnrwyd a Rhyngrwyd. Maent hefyd yn defnyddio Eteach i hysbysebu swyddi gwag mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae nifer bach o ysgolion yn hysbysebu'n uniongyrchol ar Eteach. Yn 2014, Cynorthwy-ydd Addysgu oedd y swydd a hysbysebwyd amlaf o blith yr holl swyddi mewn ysgolion a hysbysebwyd ar wefan CBS Castell-nedd Port Talbot. Dilynwyd hynny gan swyddi Goruchwylydd Canol Dydd a Phennaeth.

Mae Cyngor Sir Penfro yn hysbysebu swyddi mewn ysgolion ar eu Mewnrwyd fewnol a gwefan y Cyngor. Mae Sir Benfro hefyd yn hysbysebu swyddi addysgu gwag trwy Eteach a swyddi Penaethiaid a Dirprwyon trwy adran swyddi'r TES ar-lein. Yn 2014, Cynorthwy-ydd Addysgu oedd y swydd a hysbysebwyd fwyaf o blith yr holl swyddi mewn ysgolion a hysbysebwyd ar wefan Cyngor Sir Penfro. Dilynwyd hynny gan swyddi Athro a Goruchwylydd Amser Cinio.



Mae Cyngor Sir Powys yn hysbysebu swyddi mewn ysgolion a gyflwynir trwy eu Tîm Recriwtio canolog ar eu gwefan fewnol ac allanol. Mae'r swyddi hefyd yn cael eu hysbysebu ar Eteach ac ar gais yn y TES ac mewn cyhoeddiadau lleol. Fodd bynnag, mae nifer o ysgolion, yn arbennig ysgolion Uwchradd, yn dewis hysbysebu eu swyddi eu hunain. Gall ysgolion sy'n hysbysebu eu swyddi eu hunain hefyd ddefnyddio Eteach. Yn 2014, Cynorthwy-ydd Addysgu oedd y swydd a hysbysebwyd fwyaf o blith yr holl swyddi mewn ysgolion a hysbysebwyd ar wefan Cyngor Sir Powys. Dilynwyd hynny gan swyddi Athro a Phennaeth.

Mae ysgolion unigol yn anfon swyddi gwag y maent am eu hysbysebu trwy wefan y Cyngor at Ddinas a Sir Abertawe. Ar ben hynny, gall yr ysgolion ofyn i'r Awdurdod Lleol roi'r hysbyseb ar ETeach ar eu rhan. Fel arall, gall rhai ysgolion mwy o faint drefnu hynny gydag ETeach yn uniongyrchol.

Yn 2013, roedd y sector Addysg yn cyfrif am 11% o gyflogaeth y rhanbarth, a dyna oedd y 3ydd sector o ran maint ym maes cyflogaeth. Roedd mwy o weithwyr Addysg rhan amser na rhai amser llawn. Yng Nghymru yn gyffredinol, mewn cyferbyniad, roedd mwy o weithwyr amser llawn. Rhwng 2009 a 2013 gwelwyd tuedd ar i lawr yng nghyflogaeth y rhanbarth.

Ar draws Cymru yn 2013, roedd 75% o'r athrawon yn fenywod a 25% yn wrywod. Yn y rhanbarth, roedd canran uchaf yr athrawon rhwng 35 a 39 oed yn 2013 (15.8%). Yng Nghymru gyfan gwelwyd y ganran uchaf yn yr ystod oed 30-34 (16.1%), gyda 35-39 yn ail agos (15.8%). Y grŵp ethnig mwyaf o ran athrawon yn y rhanbarth yw Gwyn: Prydeinig. Mae mwyafrif athrawon y rhanbarth (58.6%) a Chymru (56%) yn Gymreig, gyda Phrydeinig yn dilyn. Nid yw mwyafrif yr athrawon yn y rhanbarth a Chymru yn siarad Cymraeg. Mae mwy o athrawon sy'n medru'r Gymraeg yn y rhanbarth nag yng Nghymru gyfan. Mae nifer mwy o Athrawon Cyfrwng Saesneg nag Athrawon Cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth ac yng Nghymru. Mae mwyafrif athrawon y rhanbarth a Chymru yn gallu addysgu Cymraeg fel ail iaith.

O blith y 4 ardal consortia, de-orllewin a chanolbarth Cymru oedd â'r nifer uchaf o Benaethiaid yn 2013. O gymharu hynny â Chymru, roedd canran y Penaethiaid benyw yn is yn y rhanbarth. Roedd mwyafrif Penaethiaid yr ysgolion Meithrin, Cynradd, Annibynnol ac Arbennig yn fenywod, tra'u bod yn wrywod yn y rhanbarth ac yng Nghymru mewn Ysgolion Canol ac Uwchradd. Roedd nifer uchaf Penaethiaid y rhanbarth rhwng 45 a 49 oed, ac nid oedd Penaethiaid 30 oed neu iau. Roedd gan ganran uchaf Penaethiaid y rhanbarth a Chymru dros 26 blynedd o wasanaeth gyda Statws Athro Cymwysedig. Yn y rhanbarth a Chymru, roedd mwyafrif y Penaethiaid yn perthyn i'r categori Gwyn: Prydeinig. Yr hunaniaeth genedlaethol oedd â'r ganran uchaf o Benaethiaid yn y rhanbarth ac yng Nghymru yn gyffredinol oedd Cymreig. Roedd gan y rhanbarth ganran uwch o Benaethiaid oedd yn medru'r Gymraeg na Chymru yn gyffredinol. Roedd canran uwch o Benaethiaid na allent addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, o gymharu â'r rhai a allai wneud hynny yn y rhanbarth ac yng Nghymru.

Roedd gan 5.6% yn fwy o Benaethiaid a 4.8% yn fwy o Ddirprwyon yng Nghymru gymhwyster NPQH o'u cymharu â'r rhanbarth. Mewn cymhariaeth â'r rhanbarth, roedd gan Gymru fwy o Benaethiaid Cynorthwyol ac athrawon eraill oedd â chymhwyster NPQH. Nid oedd gan fwyaf Penaethiaid Ysgolion Canol, Cynradd a Meithrin y rhanbarth gymhwyster

NPQH. Roedd hyn i'r gwrthwyneb i dueddiad Cymru gyfan. Mewn cyferbyniad, roedd gan fwyaf Penaeithaid Uwchradd y rhanbarth a Chymru gymhwyster NPQH.

Mae'r rhanbarth yn cynnwys 31.1% o staff cymorth Cymru, sef y nifer mwyaf o blith 4 ardal consortia Cymru. Cynorthwywyr Addysgu yw mwyaf (50.5%) staff cymorth y rhanbarth. Mae nifer y staff cymorth yn gyffredinol a'r Cynorthwywyr Addysgu yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2003/04 a 2013/14.

Yn 2013, ymddeol yn gynnar oedd hanes mwyaf yr athrawon a adawodd eu proffesiwn yng Nghymru (41.6% o'r Cynradd a 44.7% o'r Uwchradd). O'r 722 o athrawon a ymadawodd, roedd gan ganran uchaf yr athrawon dros 30 mlynedd o brofiad. Collwyd cyfanswm o 14337 o flynyddoedd o brofiad cyfunedig yn 2013. Mae tuedd gyffredinol athrawon yn ymadael rhwng 2007 a 2013 yn gostwng. O flwyddyn i flwyddyn, felly, mae llai o athrawon yn ymadael. Fodd bynnag, mae'r rhai sydd yn ymadael yn mynd â blynyddoedd o brofiad yn y proffesiwn gyda nhw.

## Heriau

Gellir cyflawni'r her o ymateb i anghenion gwahanol dysgwyr unigol trwy ddilyn y dull gweithredu a amlinellwyd yn 'Asesiad o ofynion datblygu'r gweithlu anghenion addysgol arbennig (AAA)' ('An assessment of special educational needs (SEN) workforce development requirements'), sy'n nodi'r angen am gyfuno mynediad at sgiliau AAA arbenigol, uwch â pherthnasoedd gweithio a dysgu ar y cyd, a'r pecyn offer dysgu Proffesiynol, sy'n awgrymu bod modd i athrawon ddefnyddio gwahaniaethu i ymateb i anghenion gwahanol dysgwyr.

Rhoddir pwys mawr ar sgiliau digidol, a dylai pob athro fod yn gyfrifol am gymhwysedd digidol ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd. Mae angen eglur am sgiliau digidol, a thynnir sylw at y defnydd effeithiol o dechnolegau digidol wrth ddatblygu dulliau gweithredu ar gyfer dysgu personol. Dylai cymhwysedd digidol fod yn Gyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd sydd wedi'i wreiddio yn y cwricwlwm. Bydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn caniatáu i ysgolion rannu eu harfer gorau ym maes cymhwysedd digidol ac yn gwella datblygiad ymarferwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu profiadau a rhaglenni dysgu proffesiynol newydd, yn ogystal â chyfluoedd i gefnogi athrawon ac ymarferwyr i addysgu cymhwysedd digidol.

Er mwyn ymateb i Bolisi a Strategaeth Llywodraeth Cymru, bydd angen i'r gweithlu Addysg wella DPP, rhoi'r Fargen Newydd a'r Model Dysgu Proffesiynol ar waith, creu Cynlluniau Datblygu Ysgol, cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglenni Meistr ac ymdrechu i wella eu cymhwysedd digidol.

Mae ymateb i ddisgwyliadau gweithwyr yn cynnwys darparu cyfleoedd i ddatblygu gyrfa, sydd wedi'u seilio ar DPP a'u gwella ganddo. Gall DPP ddigwydd mewn sawl ffurf, a gellir rhoi DPP rhagorol ar waith trwy asesu a nodi beth mae angen i aelodau unigol o staff ei ddatblygu.

DPP staff presennol a datblygu arweinyddion yw'r ffordd ymlaen i lenwi'r bwlch a adewir wedi i athrawon a Phenaethiaid ymddeol. Er enghraifft, cysgodi gyda chyfnod trosglwyddo a defnyddio'r Safonau Arweinyddiaeth i'r holl staff.

## Rhagweld Anghenion y Dyfodol

Mae niferoedd disgyblion mewn ysgolion Cynradd yn amrywio dros amser, ond mae yna duedd gyffredinol sefydlog. Gostyngodd nifer y disgyblion mewn Ysgolion Uwchradd rhwng blwyddyn academaidd 06/07 a 13/14, ac o gymhwyso llinell duedd linol i'r data hwn, mae'r llinell yn dal i ddangos gostyngiad yn y niferoedd. Wrth gymhwyso llinell duedd linol i'r data cyfraddau geni, mae tuedd gynyddol i'w gweld yn y rhanbarth. O estyn hynny ymhellach nag ystod y data, gwelir bod cyfradd y genedigaethau yn dal i godi.

Bydd y system gymwysterau a'r cwricwlwm yng Nghymru yn cael eu trawsnewid yn y dyfodol agos. Yn sgil hynny bydd Cymwysterau Cymru, corff arbenigol annibynnol sy'n rheoleiddio cyrff dyfarnu a chymwysterau heblaw graddau, yn cael ei sefydlu erbyn diwedd 2015. Bydd hefyd yn gwneud gwaith ymchwil ac yn gweithio'n agos gydag addysgwyr a'r byd busnes. Bydd ganddo'r pŵer i gomisiynu cymwysterau newydd.

O fis Medi 2015 bydd newid i gymwysterau Bagloriaeth Cymru, TGAU, UG a lefel Uwch, cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau sgiliau hanfodol. Yn sgil y newid hwn bydd cymwysterau TGAU Iaith newydd yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg, a hefyd bydd 2 TGAU Mathemateg newydd, y naill yn canolbwyntio ar rifedd a'r llall ar fathemateg wyddonol neu dechnegol. Bydd manylebau diwygiedig hefyd i'r TGAU Llenyddiaeth Gymraeg a Llenyddiaeth Saesneg o fis Medi 2015. O fis Medi 2016, y bwriad yw cyflwyno manyleb newydd neu ddiwygiedig ar gyfer cymwysterau TGAU yn gyffredinol, gan gynnwys TGAU Gwyddoniaeth.

Bydd Bagloriaeth Cymru raddedig sydd wedi'i diwygio ac yn fwy trylwyr yn cael ei chyflwyno'n fframwaith ar gyfer 14-19. Bydd yn cynnwys tair lefel o gymwysterau, Sylfaen, Cenedlaethol ac Uwch. Bydd angen i'r dysgwyr gwblhau 4 her ochr yn ochr â'u cymwysterau traddodiadol i gyflawni Bagloriaeth Cymru.

Mae diwygiadau ar waith i 14 o bynciau Safon Uwch, a byddant yn cael eu haddysgu o fis Medi 2015. Bydd lefel UG yn cyfrif am 40% o gyfanswm safon Uwch, ond bydd hefyd yn parhau'n gymhwyster annibynnol ynddo'i hun. Hefyd bydd nifer o bynciau Safon Uwch yn newid o fis Medi 2016.

Mae 'Dyfodol Llwyddiannus' yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm wedi'i seilio ar 6 Maes Dysgu a Phrofiad, yn hytrach na'r pynciau traddodiadol. Mae'r adolygiad yn cynnig cyfnewid y Cyfnodau Allweddol presennol am Gamau Dilyniant, gyda 3 blynedd rhyngddynt, y bydd pob un ohonynt yn cwmpasu amrywiaeth o Ddeilliannau Cyflawni. Mae proffiliau swyddi'n esblygu i gynnwys mwy o angen am sgiliau TGCh wrth i fwy a mwy o dechnolegau gael ei hymgorffori i arferion yn y dosbarth, e.e. iPad.

## Casgliadau ac Argymhellion

Casgliad yr adroddiad yw bod angen gwella DPP a datblygu arweinyddiaeth a sgiliau digidol. Amlygodd yr adroddiad hefyd ystyriaeth ynghylch ymchwilio i fylchau sgiliau yn y dyfodol.

Ymhlith yr argymhellion roedd cryfhau arferion DPP, cydweithio, llwybrau gyrfa i arweinwyr y dyfodol, athrawon fel ymchwilwyr, arweinyddiaeth, sgiliau Cymraeg a sgiliau AAA. Nodwyd hefyd yr angen am baratoi ar gyfer y newidiadau parhaus o ran y cwricwlwm a sgiliau digidol.